
# Bywyd ar Ffrynt y Gorllewin



CYNLLUN ADDYSG
Y RHYFEL BYD CYNTAF
1914–1918

national museum wales
amgueddfa cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

LLGC NLW

# Bywyd ar Ffrynt y Gorllewin

## Beth fyddwch chi'n ei ddysgu yn y llyfr yma?

### 1. Ffrynt y Gorllewin

Dysgu mwy am Ffrynt y Gorllewin.

Dysgu mwy am fywyd o frwydro ar Ffrynt y Gorllewin.

Archwilio ffotograffau, gwrthrychau a lluniau o gasgliadau Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

### 2. Amser sbâr


Dysgu mwy am sut oedd y milwyr yn treulio'u hamser sbâr.

Archwilio gwrthrychau a ddefnyddiwyd gan filwyr Cymreig 100 mlynedd yn ôl.

### 3. Coffáu

Dysgu sut oedd ymmilwyr fu farw yn cael eu cofio.

Darganfod straeon y milwyr Cymreig gafodd eu lladd ar Ffrynt y Gorllewin.









# Ffrynt y Gorllewin

Y llinell rhwng byddinoedd y Cynghreiriaid a’r Pwerau Canolog oedd Ffrynt y Gorllewin. Roedd Prydain yn un o wledydd y **Cynghreiriaid** a’r Almaen oedd un o’r **Pwerau Canolog**.

Roedd llinell Ffrynt y Gorllewin yn 440 milltir o hyd ac yn ymestyn drwy Wlad Belg, Ffrainc a’r Almaen.

Wrth i’r ddwy ochr ennill a cholli brwydrau, roedd y ffrynt yn symud. Weithiau doedd y ffrynt ddim yn symud am amser hir, hyd yn oed os oedd brwydrau ar y gweill. Yr enw Saesneg ar hyn yw ‘**stale-mate**’, sef pan nad oedd yr naill ochr yn gallu symud y llall.




Medi 1914 - Tachwedd 1914

Cynghreiriaid

Pwerau Canolog




Tachwedd 1914 - Mehefin 1916




11 Tachwedd 1918. Diwrnod y Cadoediad

# Y Rheng Flaen

Y rheng flaen yw'r llinell lle mae milwyr agosaf at ochr y gelyn. Mewn ffosydd oedd y milwyr gan amlaf ar Ffrynt y Gorllewin. Twneli agored oedd y ffosydd oedd wedi'u cloddio i'r ddaear er mwyn i'r milwyr allu cyrraedd y rheng flaen yn ddiogel.




**Roedd yn rhaid i filwyr orymdeithio am filltiroedd lawer er mwyn cyrraedd y rheng flaen. Weithiau, roedden nhw'n gorfod gorymdeithio drwy'r nos!**

Yn y ffosydd, adeiladodd y milwyr ystafelloedd dan ddaear o'r enw llochesi.

# Milwyr Cymreig ar Ffrynt y Gorllewin

## Strwythur y Fyddin

| | |
|---|---|
| Adran | Y mwyaf |
| Brigâd | |
| Catrawd | |
| Bataliwn | |
| Cwmni | |
| Platŵn | Y lleiaf |


Roedd 4 catrawd Gymreig ar Ffrynt y Gorllewin:

- Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
- Y Gatrawd Gymreig
- Cyffinwyr De Cymru
- Catrawd Sir Fynwy



Y Ddraig Goch yma oedd bathodyn yr 38ain Adran Gymreig. Roedd miloedd o'r milwyr Cymreig ar Ffrynt y Gorllewin yn rhan o'r 38ain Adran Gymreig. Roedd yr Adran yma'n cynnwys bataliynau o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Y Gatrawd Gymreig a Chyffinwyr De Cymru. Nid oedd pob milwr o Gymru yn yr Adran hon.

# Ymladd ar y Rheng Flaen




Cynlluniau **CYFRINACHOL** a ddefnyddiwyd gan yr 38ain Adran Gymreig



Pan oedd y fyddin yn cynllunio ymosodiad, roedd yn rhaid iddynt wneud yn siŵr fod yr wybodaeth yn gwbl **GYFRINACHOL** rhag ofn i'r gelyn glywed am y cynllun. Weithiau, doedd y milwyr eu hunain ddim yn gwybod am y cynllun cyn iddynt ymosod.

Bu farw llawer o ddynion mewn brwydrau ar Ffrynt y Gorllewin. Weithiau, roedd miloedd o filwyr yn cael eu lladd neu eu hanafu mewn un diwrnod.

Bu farw cannoedd o filwyr Cymreig ym mrwydr Coed Mametz yn Ffrainc ym 1916. Bu farw bron i 4,000 o filwyr yn y frwydr hon. Mae'r paentiad yma'n dangos sut y gallai'r frwydr fod wedi edrych. Cafodd ei baentio gan Christopher Williams gafodd ei eni ym Maesteg.



# Dros yr Ymyl

Pan oedd milwyr yn dringo allan o'u ffosydd ac yn mynd am y gelyn roedden nhw'n mynd 'dros yr ymyl'. Roedd y swyddogion yn chwythu eu chwibanau i ddweud wrth y milwyr ei bod yn amser ymosod.

**Dychmygwch sut oedd y milwyr yn teimlo wrth aros am y chwiban.**

# Bywyd yn y Ffosydd

Roedd bywyd yn y ffosydd yn anodd iawn. Roedd sŵn y drylliau'n tanio a'r bomiau'n ffrwydro yn gallu para drwy'r dydd a thrwy'r nos. Nid siel yn ffrwydro yn y ffos oedd yr unig berygl.

Dyma rai o'r problemau erchyll oedd y milwyr yn eu hwynebu yn y ffosydd:

- Dŵr mwdlyd i fyny at eu canol
- Gwisgo dillad gwlyb a brwnt am ddyddiau
- Llygod mawr yn dringo dros y ffosydd a hyd yn oed dros y milwyr
- Chwain a llau yn eu dillad a'u gwallt
- Dim cwsg am ddiwrnodau
- Dolur traed y ffosydd



Dyluniad o'r milwr Prydeinig mewn ffosydd

**Roedd rhai milwyr yn credu fod yr Almaenwyr yn ailgyfeirio'r dŵr o'u ffosydd nhw i mewn i ffosydd y milwyr Prydeinig er mwyn gwneud bywyd yn anoddach fyth!**

Un o ddyletswyddau milwyr y ffosydd oedd bod ar **wyliadwraeth**. Roedd rhaid i filwyr gadw llygad er mwyn gwneud yn siŵr nad oedd milwyr y gelyn yn ymosod arnynt. Roedd yn rhaid gwneud hyn ddydd a nos hyd yn oed os nad oedd y milwr wedi cysgu. Roedd yn para oriau ac yn waith dychrynllyd a blinedig. Os oedd milwr yn cwympo i gysgu ar wyliadwraeth, roedd yn cael ei gosbi.



**Roedd milwyr yn teimlo'n lwcus os oedden nhw'n cael cyfle i wneud pethau bob dydd fel eillio neu ymolchi. Weithiau, roedden nhw'n gwisgo'r un dillad brwnt am ddyddiau neu wythnosau!**

# Offer



Reiffl a ddefnyddiwyd gan filwyr Prydeinig

Ymhlith offer y milwyr Prydeinig oedd:

- Lifrai
- Esgidiau
- Helmed
- Reiffl a bidog
- Mwgwd nwy
- Rhaw
- Gwarbac
- Gwregys â phocedi i gadw bwledi

Roedd gan filwyr lawer o offer i'w gario. Roedd yn drwm iawn yn enwedig wrth orymdeithio.

**At ei gilydd, roedd holl offer milwr yn pwyso hyd at 40kg. Tua'r un faint â rhinoseros ifanc!**

**Weithiau, ar ôl ennill brwydr, roedd y milwyr Prydeinig yn cymryd gwrthrychau oddi wrth y milwyr Almaenig. Roedden nhw'n eu defnyddio neu yn eu cadw i'w hatgoffa o'u hamser yn y fyddin.**



Bidog Almaenig a gymerwyd gan filwr Cymreig yn gofrodd. Roedd bidogau'n cael eu rhoi ar flaen reiffl er mwyn ei ddefnyddio fel gwaywffon.


Helmed
Reiffl
Tiwnig
Poced i gadw bwledi
Bidog
Coesrwymau

# Iechyd

Cafodd miloedd o filwyr eu hanafu wrth ymladd ar y rheng flaen. Roedd milwyr arbennig o'r enw 'medics' yn edrych ar ôl y milwyr ar faes y gad. Roedd milwyr wedi'u hanafu'n mynd i ysbyty maes tu ôl i'r rheng flaen. Aeth llawer o fenywod o Brydain i weithio fel nyrsys ac edrych ar ôl y milwyr clwyfedig ar Ffrynt y Gorllewin.



Milwyr Prydeinig, Ffrengig ac Eidalaidd wedi'u hanafu

Roedd byw yn y ffosydd yn gallu gwneud milwyr yn sâl. O sefyll mewn dŵr am amser hir, roedden nhw'n dioddef o **ddolur traed y ffosydd**. Dywedodd y fyddin wrth y milwyr am edrych ar eu traed ei gilydd i wneud yn siwr eu bod yn iach. Eich 'cyffaill traed y ffosydd' oedd y milwr oedd yn edrych ar eich traed.



**Roedd dolur traed y ffosydd yn gwneud i'r milwyr deimlo bod eu traed ar dân!**




Roedd pecyn o rwymau wedi'i wnïo yn siaced pob milwr

# Bwyd yn y Ffosydd

Roedd y fyddin yn dognu bwyd y milwyr, felly dim ond hyn a hyn o fwyd oedden nhw'n ei gael. Tuniau o 'bully beef' a bisgedi oedd y prif ddognau. 'Bully beef' oedd yr enw ar gorn-bîff. Roedd coginio bwyd yn y ffosydd yn anodd, felly roedd y rhan fwyaf o'u prydiau bwyd yn oer. Roedd bwyta'r un bwyd bob dydd yn gallu bod yn ddiflas.

**Weithiau, roedden nhw'n cario te i'r ffosydd mewn caniau petrol. Yn aml iawn, roedd y te'n oer ac yn blasu fel petrol!**



Roedd y bisgedi mor galed, roedd y milwyr yn meddwl mai bisgedi cŵn oedden nhw. Ni chafodd y fisged hon ei bwyta erioed – mae dros 100 mlwydd oed!



Adeiladodd y fyddin **boptai maes** yn ddigon pell o'r rheng flaen er mwyn pobi bara ar gyfer y milwyr.

# Anifeiliaid a'r Fyddin



Roedd y fyddin yn defnyddio llawer o anifeiliaid ar y rheng flaen. Roedd ceffylau yn cario milwyr ac yn tynnu wagenni. Roedd colomennod yn cario negeseuon. Roedd cŵn yn cario negeseuon, yn arogli bomiau a hyd yn oed yn cario pecynnau drwy'r ffosydd.

Weithiau, roedd anifeiliaid yno fel masgot i gadw cwmni i'r milwyr. Pan nad oedden nhw ar y rheng flaen, roedd y catrodau Cymreig yn defnyddio gafr yn fasgot. Efallai eich bod chi wedi gweld y 'Goat Major' mewn gemau rygbi Cymru.





# Amser sbâr

Doedd y milwyr ar y rheng flaen ddim bob amser ar ddyletswydd. Roedd amser sbâr yn gallu bod yn ddiflas felly roedd y milwyr yn gwneud gwahanol bethau i gadw'n brysur. Roedd hyn yn cynnwys celf, darllen, chwarae cerddoriaeth a chwarae gemau.




Milwyr ar amser sbâr tu ôl y ffosydd. Y Milwr ar y chwith yn chwarae organ ceg.




Roedd rhai milwyr yn cerfio lluniau ar wrthrychau, e.e. casys sieliau. Celf y ffosydd yw'r enw ar y math hwn o gelf.

**Un o gemau'r milwyr oedd rhoi caws ar ben bidog, aros i lygoden fawr ddod i fwyta'r caws, yna SAETHU'R llygoden fawr!**

Roedd y milwyr yn cael amser i orffwys mewn **llety** i ffwrdd o'r ffosydd. Roedd y llety'n amrywio o le i le. Weithiau, tŷ rhywun lleol, ysgubor neu hyd yn oed sied oedd y llety. Roedd yn gyfle i'r milwyr fwyta prydau mwy a phoeth i ffwrdd o'r rheng flaen.



Milwyr ar amser sbâr tu ôl y ffosydd





Roedd yn bwysig i'r milwyr allu siarad Ffrangeg. Os oedden nhw'n gallu siarad Ffrangeg, roedden nhw'n gallu siarad â phobl leol a milwyr Ffrengig. Doedd y rhan fwyaf o filwyr Prydain ddim yn siarad Ffrangeg, felly rhoddodd y fyddin lyfrau i'w helpu i ddysgu brawddegau.

# Ysgrifennu Adre

Er mwyn cadw mewn cysylltiad ag adre, roedd yn rhaid i'r milwyr ysgrifennu llythyrau neu gardiau post. Roedd y post yn gallu cymryd amser maith i gyrraedd adre.


Roedd gwahanol luniau a negeseuon ar y cardiau post. Ar y cefn, roedd ychydig o le i ysgrifennu neges. Weithiau, roedd negeseuon wedi'u hargraffu ar gefn y cardiau post, felly dim ond rhoi ei enw fyddai'r milwr.

**Pam ydych chi'n meddwl fod rhai milwyr ddim ond am roi eu henwau?**




Chardiau post o'r milwyr Cymreig ar Ffrynt y Gorllewin

Pan oedd gan y milwyr ragor o amser, roedden nhw'n ysgrifennu llythyrau. Roedd yn gyfle i'r milwyr gynnwys rhagor o wybodaeth. Roedd y fyddin yn rhoi llinellau du trwchus dros rai geiriau er mwyn cuddio gwybodaeth oedd yn **GYFRINACHOL**.



202757 Pte D E Jones
E Coy, 9th Welsh Regt
B. E. F
France.
8. 12. 17

Anwyl Deulu Anwyl.
Gyda'r pleser mwyaf yr wyf yn ysgrifenu ychydig eiriau atoch gan obeithio eich bod yn weddol mewn iechyd i gyd fel yr wyf innau ar hyn o bryd, Wel mi garwn weid llawer wrthych yn y llythyr hwn, ond mae fy nheimladau a fy meddyliau yn chwanneg mwyn ar hyn o bryd, a fel i chi n gwybod na chewn i ddim, a hyny sy dda amliawn,

Wel cofiwch fi yn fawr at Maggie a Sam hefyd atynt yn Llain, hefyd cofiwch fi at eich Brodyr ach chwiorydd i gyd. Wel does gen i ddim un newydd i chi dim ond ein bod ar ein travel bob Dydd ac yn ei theimlo hefyd, Wel gobeithio eich bod yn meddwl hala Parcel bach i fi erbyn Nadolig, Byddwch mor gysurus a gallech, Peidiwch a hala arian i fi hyd nes halai i ofyn i chi am beth, Na dim rhagor nawr, falle taw Field Cards gewch chi am dipyn bach

Wel mi gefais ddau lythyr o wrtho chi Dydd Llun diweddaf, ac mi gefais lythyr o wrth Johny Spring un pryd, hefyd mi gefais Parcel Mr Lewis Penrallt run Dydd, ac allai ddweud wrthych yr oeddwn yn falch iawn o honno, Rhowch ddiolch yn fawr i ffynonbedr am ei caredigrwydd o wneuthur Parcel mor suitable, yr oedd y Cake ar oll yn passo beuaty, hefyd rhowch yr un modd i Mr Lewis, Mae'n ddrwg iawn genyf na allai ddim ysgrifenu at bawb am tipyn bach,

bach nawr, Wel Duw ach bendithio chwi oll a minnau gyda chi gobeithio, gofalwch am y Plant bach hyd a gallech. Dyma gardyn i Sammy bach, chai ddim cyfle i gal un i Ann nawr.

Hwyl yn fawr

Eich Anwyl Briod
David

x x x x x x x
x x x x x x x x x x
x x x x x x x x
x x x x x x x x x

Llythyr olaf nol i gartref gan David Emlyn Jones


# Anrhegion o Adre

Roedd teuluoedd y milwyr yn anfon anrhegion at y milwyr ar Ffrynt y Gorllewin. Roedden nhw'n anfon sanau, bisgedi, siocled a thybaco. Wedi diwrnod hir yn y ffosydd, rhaid ei fod yn syrpreis braf i gael anrheg o adre.

**Dychmygwch sut deimlad oedd bwyta siocled ar ôl bwyta'r un bwyd am ddyddiau, neu wisgo sanau newydd yn lle'r hen rai gwlyb wedi llwydo.**




Roedd gweu sanau newydd i filwr yn anrheg dda




Roedd y milwyr yn cael llythyrau a chardiau post o adref hefyd.

# Lwc a Cholled

Roedd byw a brwydro ar Ffrynt y Gorllewin yn ddychrynllyd. Roedd rhai milwyr yn gwisgo swynoglau lwc dda. Roedden nhw'n gobeithio y byddai'r swynogl yn dod â lwc dda iddyn nhw ac yn eu hamddiffyn rhag perygl.



Swynoglau lwc dda milwyr




Roedd pob milwr yn gwisgo bathodyn adnabod gyda'i enw arno. Os fyddai milwr farw ar faes y gad, roedd y fyddin yn gwybod pwy oedd e. Dyma fathodyn David John Griffiths o Dreforys. Bu farw ar 21 Mawrth 1918. Cafodd y bathodyn ei anfon at ei deulu.

**Dychmygwch sut deimlad oedd derbyn y bathodyn yn y post.**

Anfonodd y llywodraeth blaciau coffa at deuluoedd milwyr. Roedden nhw'n ysgrifennu enw'r milwyr arnyn nhw. Am eu bod yn edrych fel ceiniog mawr, roedden nhw'n cael eu galw'n '**Dead Man's Penny**'. Cawsant eu hanfon at deuluoedd menywod fu farw wrth weithio fel nyrsus ar Ffrynt y Gorllewin hefyd.

**I lawer o bobl, roedd yn eu hatgoffa o dristwch eu colled.**




**Director of Graves Registration & Enquiries.**

Begs to forward as requested a Photograph of the Grave of :—

*Name* Foote

*Rank and Initials* Pte O.

*Regiment* 2nd Grenadier Guards

*Position of Grave* Canada Farm British Cemetery - Elverdinghe

*Nearest Railway Station* Vlamertinghe

All communications respecting this Photograph should quote the number (21/19506) and be addressed to :— Director of Graves Registration and Enquiries, War Office, Winchester House, St. James's Square, London, S.W., 1.

Owing to the circumstances in which the photographic work is carried on, the Director regrets that in some cases only rough Photographs can be obtained.

"COPYRIGHT FULLY RESERVED."




Plac a anfonwyd at deuluoedd David John Griffiths i'w cofféu.



Oscar Foote

Nid ar y rheng flaen y bu farw pob un o'r milwyr ar Ffrynt y Gorllewin. Bu farw milwr o'r enw Oscar Foote o Benarth yn ei amser sbâr. Wedi gadael y ffosydd, roedd Oscar newydd gyrraedd ei lety. Glaniodd siel Almaenig ar bwys cwt Oscar. Lladdodd y ffrwydriad ef.